

YSGOL DYFFRYN CONWY



Bwletin i Rieni - Rhagfyr 2012



**DYDDIADAU
PWYSIG**

21 Rhagfyr 2012 - 7 Ionawr 2013

Gwyliau Nadolig

Ysgol yn ail agor i'r disgyblion

Ionawr 7^{ed}

9 Ionawr 2013

Arholiadau allanol yn cychwyn i

Flynnydoedd 11, 12 a 13

Arholiad Gwyddoniaeth

Adolygu Saesneg

10 Ionawr 2013

Arholiad Iaith Saesneg Blwyddyn 11

Peldroed yr Urdd

15 Ionawr 2013

Noson Rhieni Blwyddyn 9

29 Ionawr 2013

Noson Rhieni Blwyddyn 11

Nofio'r Urdd



Llongyfarchiadau i bawb a fu ynghlwm efo nofio'r Urdd yn Rydal ar Dachwedd 27ain ac yn arbennig felly i Morgan Metcalfe, Bl.10 a ddaeth i'r brig mewn dwy ras - y pili pala a'r nofio cymysg. Pob dymuniad da iddo wrth gynrychioli'r ysgol a'r sir yn y Gala Cenedlaethol ym mis Ionawr. O goginio i nofio - meistr mewn sawl maes maen amlwg! Da iawn i bawb a fu'n cystadlu.

Awen i'r Sgwad Sgwennu!

Yn dilyn sefydlu Sgwad Sgwennu newydd ym mlwyddyn 7 eleni, cynhaliwyd eu sesiwn greu cyntaf dan arweiniad Y Prifardd Myrddin ap Dafydd. Bu iddo ymweld â'r ysgol ar fore Mercher, 28ain o Dachwedd a rhoi blas ar faled drwy greu baledi yn ymwneud â hanes lleol efo Sgwad Sgwennu Bl. 7, yna i ddilyn Sgwad Sgwennu Bl.8. Mwynhawyd y profiad yn fawr.



Y Prifardd Myrddin ap Dafydd gyda Sgwad Sgwennu Blwyddyn 8



Gwersyll yr Urdd
Glan-Ilyn

Antur yng Nglan-Ilyn

Cafwyd llawer o hwyl a phrofiadau arbennig mewn awyrgylch Gymraeg a Chymreig yng Nglan-Ilyn ar ddechrau Rhagfyr wrth i 61 o ddisgyblion blwyddyn 7 a swogs gweithgar o'r chweched ymweld â gweryll yr Urdd.

Dros gyfnod o ddeuddydd bu iddynt brofi'r cwrs rhaffau (uchel iawn iawn i rai!), bowlio deg, adeiladu raft a chanwio. Dewr iawn ar Lyn Tegid ym mis Rhagfyr chwarae teg! Ond roedd bwyd blasus y gegin yn cynhesu pawb wedyn!

Gyda'r nos cynhaliwyd sesiynau arbennig mewn chwaraeon gan ddisgyblion Bl.12 sy'n astudio cwrs Arweinwyr Chwaraeon yn y Gymuned ac yna gwledd o Eisteddfod Wirion wedi ei threfnu eto gan Flwyddyn 12. Gwelwyd sawl disgybl ac athro yn dangos talent arbennig mewn meysydd anarferol a dweud y lleiaf!



Gweithdai Cerddoriaeth



Ydych chi'n cofio y Blew? Beth am holl fandiau eraill sy'n hano o ardal Llanrwst? Wel bore Mercher y 5ed o Ragfyr cafwyd gweithdai hynod ddiddorol gan Rhys Mwyn yn olrhain hanes Cerddoriaeth a bandiau poblogaidd Cymru. Cynhaliwyd pedair sesiwn i roi cyfle i bawb o flwyddyn 8 glywed hanes bandiau Cymru o'r 60au hyd heddiw. Pwy fuasai'n meddwl bod ambell un o'r rhai cyntaf hynny yn dal i ganu a diddanu heddiw. Arianwyd y gweithdai trwy gynllun efo Menter Iaith a diolch am iddynt hwy a Rhys Mwyn am roi hanes a oedd yn lleol iawn i ni.

Mae cryn gynnwrf yn yr ysgol gogyfer cynhyrchiad y sioe 'Hairspray'. Bu ymarfer brwd ers wythnosau ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r perfformiadau ar y nosweithiau Rhagfyr 18-20. Mynnwch docyn o'r ysgol yn fuan rhag i chi gael eich siomi!



Gig Sen Segur

Brynhawn Mercher y 5ed daeth y grŵp Sen Segur i ddi-ddanu disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 mewn gig a drefnwyd ar y cyd efo Menter Iaith. Wedi cynhesu i fyny bu dawnsio a mwynhau mawr wrth i'r grŵp lleol o gyn-ddisgyblion berfformio eu set yn neuadd yr ysgol. Braff gweld cyn-ddisgyblion yn gwneud enw iddynt eu hunain ac yn parhau i gadw traddodiad cryf grwpiau o Lanrwst yn fyw ar y sin Canu Cymraeg. Oes angen dweud mwy na bod y dorf o ddisgyblion yn gweiddi 'encore'?!



Pêl-rwyd



Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-rwyd blwyddyn 7 a wnaeth gyfrif da ohonynt eu hunain yn nhrnamaint Conwy ym Mryn Elian nos Fercher, y 5ed o Ragfyr. Llwyddwyd i ennill un, cyfartal mewn un a cholli mewn un a hyn i gyd gydag effeithiau blinder Glan-Ilyn dal yn amlwg! Tîm addawol iawn - da iawn chi ferched. Daliwch ati i fynd o nerth i nerth!

Sglefrio Iâ



Aeth bws o aelodau'r Urdd o'r ysgol i sglefrio iâ yng Nglannau Dyfrdwy ar nos Wener y 7fed o Ragfyr. Mwynhawyd y profiad yn fawr ac mae addewid am Torvill a Dean y dyfodol! Diolch i Mrs Jen Hughes am fynd gyda'r criw.



Everton yn curo Tottenham!

Brynhawn Sadwrn Rhagfyr 8fed aeth bws o Ysgol Dyffryn Conwy i wylïo'r gêm rhwng Everton a Tottenham. Cracar o gêm (i gefnogwyr Everton) gyda'r tîm cartref yn rhwydo'n y munud olaf i ennill. Diolch i Mr Ioan Hughes a'r staff am drefnu, a'r plant am fwynhau ac ymddwyn yn ardderchog.



Naid er budd Tŷ Gobaith

Llongyfarchiadau i Ffion Hughes Blwyddyn 13 a gwblhaodd naid barasiwt yn ddiweddar i gasglu arian at Dy Gobaith. Llwyddodd i gasglu swm anrhydeddus iawn o £650. Tipyn o gamp yn wir!

Llongyfarchiadau i Llywela Edwards seren Ffair Aeaf Llanelwedd - Dyma ei stori



Yn ddiweddar, bum yn ffodus iawn o gael cystadlu yn y gystadleuaeth barnu wyn tew yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd. Roeddwn wedi bod yn ymarfer a pharatoi'n drylwyr iawn cyn y diwrnod mawr, ac yn ffodus i mi, cefais 2il! Yn ogystal â hyn, cefais y wobwr am yr araith orau drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond cyn cyrraedd y Ffair Aeaf, roedd rhaid i mi gystadlu dros Glwb Ffermwyr Ifanc Uwchaled yn Ffederasiwn Clwyd. Gan mai dyma oedd y tro cyntaf i mi gystadlu, roedd yn sioc fawr i wybod fy mod i wedi curo dros ugain o gystadleuwyr dan 16. Roedd rhaid i mi fod yn y Ffair Aeaf erbyn 9.30

am. Felly doedd dim amdani ond cychwyn 6.00 am. Ar ôl cyrraedd, roedd rhaid i mi gofrestru yng nghanolfan y Ffermwyr Ifanc ar faes y sioe. Roedd y pili pala yn fy stumog yn dechrau cadw reiat erbyn hyn! Ar ôl i bawb oedd yn barnu wyn o dan 16 gofrestru, roedd hi'n amser mynd i fyny i'r sied ddefaid. Gwisgais fy nghot wen a ffwrdd a mi!

Yn y gorlan, roedd yna bedwar oen wedi eu marcio – A, B, X, Y. Y bwriad oedd dewis pa oen oedd yn gyntaf, ail, trydydd, a phedwerydd. Ar ôl dewis trefn yr wyn, roedd rhaid i bawb ysgrifennu araith i lenwi dau funud, yn cynnwys rhesymau dros roi'r wyn yn y drefn benodol. Yna, roedd rhaid dweud fy araith o flaen y beirniaid. Gosodais i'r wyn yn y drefn B, Y, X, A. Yn lwcus i mi dyma oedd y drefn gywir!

'Roedd rhaid aros tua tair awr am ganlyniad y gystadleuaeth. Doeddwn i ddim yn disgwyl dim byd, felly roedd yn sioc fawr o wybod fy mod i wedi ennill dwy wobwr. Roeddwn yn teimlo'n llawn balchder, gan fy mod wedi gwneud cystal drwy Gymru gyfan a thu hwnt.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda